Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dewi Sant a Reolir dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru, Tregolwyn, Bro Morgannwg, CF71 7NL

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Chwefror 2012**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae ysgol Dewi Sant yn ysgol wirfoddol a reolir dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru a leolir ym mhentref Tregolwyn, sydd hanner ffordd rhwng Pen-y-bont a'r Bontfaen. Gwasanaetha'r ysgol blwyfi gwledig Tregolwyn, Llandŵ a Llyswyrny gan dderbyn nifer sylweddol o blant o ardaloedd yn bellach i ffwrdd. Wedi ei hadeiladu yn 1970, ymestynnwyd yr ysgol ymhellach bedair gwaith yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae 150 o ddisgyblion ar y gofrestr. Trefnir yr ysgol yn saith dosbarth ar wahân ac mae naw o athrawon llawn amser, gan gynnwys y prifathro sydd wedi ei secondio, a naw cymhorthydd dysgu.

Disgrifir yr ardal fel un gweddol lewyrchus, gyda dim ond 4% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim; ffigwr sydd yn llawer is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod lawn o allu. Ar hyn o bryd, mae gan tua 10% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ac mae hyn llawer is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae rhai disgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol ac nid oes yr un disgybl yn derbyn cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes yr un disgybl yn dod o gartref ble mae'r Gymraeg yn famiaith. Saesneg yw prif iaith yr ysgol a dysgir y Gymraeg fel ail iaith.

Mae'r ysgol wedi mynd trwy gyfnod o newidiadau staffio a chryn ansefydlogrwydd yn y cyfnod diweddar. Bu'r cyn bennaeth yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch o 2010 i 2011, a gan nad oedd dyddiad dychwelyd i'r gwaith rhagweladwy, cafodd y pennaeth presennol ei secondio gan yr awdurdod lleol ym mis Mai 2011. Ymddeolodd y cyn bennaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ym mis Gorffennaf 2011.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Dewi Sant a Reolir dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru yn 2011-2012 yn golygu cyllid o £3567 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Bro Morgannwg yw £4940 a'r isafswm yn £2736. Mae Ysgol Gynradd Dewi Sant a Reolir dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru yn 16eg o'r 46 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg o safbwynt ei chyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol.  Mae hyn oherwydd:

- gwna bron pob un disgybl ddechreuad da i'w dysgu ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn dros amser;
- mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol; maent yn hapus ac mae llawer yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu; a
- mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol ar draws y cwricwlwm;
- nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau llafaredd Cymraeg yn gyson trwy gydol y diwrnod ysgol;
- nid yw'r disgyblion mwy galluog yn cael eu herio'n ddigonol; a
- nid yw ansawdd yr addysgu yn gyffredinol yn ddigon da.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r pennaeth sydd wedi ei secondio yn arweinydd deinamig sydd, o fewn cyfnod byr, wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd;
- mae hi wedi meithrin synnwyr cryf o fwriad ar y cyd trwy'r ysgol trwy greu gweledigaeth a rennir ac ethos gofalgar; a
- mae'r pennaeth sydd wedi ei secondio, yr uwch dîm rheoli a nifer o aelodau o staff wedi ymrwymo'n gryf i godi safonau.

Fodd bynnag:

- nid yw llawer o'r mentrau a'r strategaethau newydd wedi cael digon o amser i gael effaith llawn ar safonau a darpariaeth;
- nid yw rôl y llywodraethwyr yn monitro safonau a darpariaeth wedi ei ddatblygu'n llawn; a
- mae ansicrwydd ynglŷn ag arweinyddiaeth a rheolaeth hir dymor yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 wella defnydd disgyblion o fedrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac annibynnol ar draws y cwricwlwm;

A2 hyrwyddo ymhellach y defnydd o fedrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol;

A3 lledaenu'r arferion gorau mewn addysgu ac asesu ar draws yr ysgol;

A4 darparu profiadau dysgu mwy heriol ar gyfer y disgyblion mwy galluog;

A5 datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol; a

A6 sicrhau sefydlogrwydd arweinyddiaeth hir dymor yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Fe fydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae data dros y tair blynedd diwethaf yn dangos bod disgyblion yn saith mlwydd oed yn cyflawni yn llawer gwell ar gyfartaledd na disgyblion mewn ysgolion eraill yng Nghymru yn y pynciau craidd o Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Maent hefyd yn gwneud yn well ar gyfartaledd na disgyblion yn y teulu o ysgolion (ysgolion gyda nodweddion cyffelyb).

Mae canran y disgyblion yn un ar ddeg mlwydd oed sy'n cyflawni'r lefel pedwar disgwyliedig neu uwch yn y pynciau craidd o Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyffredinol yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol dros y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, nid yw perfformiad disgyblion wedi cymharu'n gyson dda gyda chyrhaeddiad yn y teulu o ysgolion.

Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, roedd cynnydd a chyrhaeddiad yn y dosbarthiadau yn rhy amrywiol. Yn y gwersi ble mae'r safonau yn dda, mae disgyblion yn galw i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn cymhwyso eu sgiliau a'u gwybodaeth yn briodol ar gyfer sefyllfaoedd newydd.

Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol. Yn y Cyfnod Sylfaen mae llawer yn datblygu'n hyderus ac yn cyrraedd safonau priodol. Fodd bynnag, yn y ddau gyfnod allweddol nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn gweithio'n annibynnol yn eu gwersi gan ddibynnu'n ormodol ar gyfarwyddyd ac arweiniad athrawon. Nid yw'r rhai mwy galluog yn cyrraedd eu potensial yn ystod y gwersi ac yn eu llyfrau gwaith, ac nid yw safon y gwaith bob amser yn briodol i'w hoedran a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu yn hyderus mewn Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu. Ymgomiant yn glir ac yn hir am eu gwaith ac yn anffurfiol mewn amryw i sefyllfaoedd. Meddant eirfa gynyddol dda sy'n datblygu'n briodol.

Mae medrau darllen y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda trwy eu gyrfa yn yr ysgol ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, darllenant yn gywir ac yn ddeallus mewn Saesneg. Trafodant gynnwys eu llyfrau yn effeithiol, gan fynegi barn arnynt a siarad am eu hoff awduron.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu yn faith i safon dderbyniol mewn Saesneg. Fodd bynnag, mae diffyg trefn ar gyflwyniad gwaith nifer o ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, ac nid ydynt yn creu digon o ddarnau gwaith estynedig mewn ardaloedd eraill ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn aml oherwydd eu bod yn defnyddio llawer gormod o daflenni gwaith.

Datblyga nifer o ddisgyblion fedrau priodol mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ond nid ydynt yn cymhwyso’r rhain yn effeithiol mewn amrediad o bynciau.
Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn frwdfrydig ac yn hyderus, gan ymateb y briodol i Gymraeg achlysurol a chyfarwyddol yn ystod y gwersi. Mae llawer yn darllen yn dda gydag ynganiad clir. Yng nghyfnod allweddol 2 uwch, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda. Fodd bynnag, nid yw bron pob un o’r disgyblion yn gyson yn trosglwyddo'r medrau hyn i ardaloedd eraill o’r cwricwlwm a cheir diffyg digymhellrwydd i siarad yr iaith tu allan i’r ystafell ddosbarth.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o leiaf yn gwneud y cynnydd disgwyliedig a gwna rhai ohonynt hyd yn oed yn well na hynny. Mae’r disgyblion hynny sy’n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer llythrennedd a rhai sydd yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim hefyd yn cyflawni’n briodol.

**Lles: Da**

Mae pob un disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol a hefyd yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi. Medda’r rhan fwyaf agweddau cadarnhaol tuag at gadw’n ddiogel ac iach ac maent yn deall yr angen i wneud ymarfer corff ac i fwyta’n iach.

Medda y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ysgol ac maent yn frwdfrydig ac yn awyddus iawn i ddysgu. Mae mwyafrif yn gyffredinol yn gwybod pa mor dda maent yn ei wneud a pha gamau rhaid iddynt eu cymryd er mwyn gwella eu gwaith.

Mae ymddygiad llawer o’r disgyblion tu fewn ac o amgylch yr ysgol yn dda ac maent yn dangos parch a phryder am eraill. Fodd bynnag, mae rhai weithiau yn anniddig mewn rhai gwersi. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn foneddigaidd a chwrtais ac yn creu perthynas dda â’i gilydd a gydag oedolion. Mae pob un disgybl yn dangos balchder yn eu hysgol.

Mae graddau presenoldeb, sydd ar gyfartaledd yn 95% am y tair blynedd diwethaf, yn dda o’u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd yn brydlon i’r ysgol. Mae cyngor yr ysgol wedi ei hen sefydlu ac yn effeithiol a medda’r aelodau ddealltwriaeth dda o’u rôl. Maent ynghlwm â gwneud penderfyniadau ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at wella amgylchedd yr ysgol.

Mae ymglymiad disgyblion yn y gymuned yn gryfder yr ysgol. Mae nifer ynghlwm yn weithredol mewn nifer o brosiectau’r gymuned leol ac yn codi arian ar gyfer achosion da.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n ymrwymo'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd da o ddysgu tu fewn a thu allan. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar wybodaeth bresennol disgyblion. Ar y cyfan, mae aelodau staff yn cynllunio cyfleoedd dysgu da ac yn eu cydweddu'n glos gydag anghenion llawer o'r disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o grwpiau wedi eu tynnu allan ar gyfer llythrennedd a mathemateg a chaiff hyn effaith dda ar safonau disgyblion. Hefyd, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu da trwy ddefnyddio athrawon arbenigol cerddoriaeth ac ymarfer corff, gaiff hefyd effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nifer o athrawon yn gyffredinol yn cynllunio'n drwyadl i ddatblygu medrau allweddol disgyblion; fodd bynnag mae hyrwyddo'r medrau yma ar draws y cwricwlwm yn anghyson.

Mae trefniadau ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn drylwyr ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau iaith Gymraeg disgyblion yn y gwersi Cymraeg yn dda. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan y mwyafrif o aelodau o staff a'r defnydd helaeth o arwyddion a hysbysiadau dwyieithog yn dechrau effeithio'n llwyddiannus ar hyrwyddo dwyieithrwydd. Fodd bynnag, er yr anogir disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell yn ystod y dydd a thu allan i'r ystafell ddosbarth, ni wnânt hynny yn gyson ac yn annibynnol. Mae gan yr ysgol nifer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru.

Darpara'r ysgol amrediad eang o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol ar ôl yr ysgol a fwynheir gan lawer o ddisgyblion. Cyfrannant yn dda tuag at les, dealltwriaeth ddiwylliannol, a datblygiad cymdeithasol disgyblion.

Hyrwydda'r ysgol yn llwyddiannus ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy sy'n annog eu hymglymiad mewn cynlluniau fel ailgylchu, arbed ynni a bwyta'n iach. Caiff y disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau eraill a'r byd ehangach.

### Addysgu: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn sefydlu perthynas gwaith da gyda disgyblion sy'n meithrin dysgu effeithiol. Mae llawer o'r athrawon yn gweithredu fel modelau rôl da i'r disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Yn y dosbarthiadau ble mae'r dysgu yn dda, defnyddia athrawon ystod eang o ymdriniaethau dysgu, mae ganddynt wybodaeth bynciol ddibynadwy ac fe gynllluniant wersi sydd ag amcanion clir iddynt. Defnyddir adnoddau yn dda i ysgogi disgyblion a diwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae ansawdd y dysgu ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol ac nid yw bob amser yn herio disgyblion i gyflawni gorau y gallent. Yn y gwersi llai effeithiol, ac yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 isaf, mae cyflymder y dysgu yn rhy araf, mae rheoli ymddygiad yn anghyson ac nid yw'r gwaith yn aml yn ddigon ymdrechgar.

Mae'r ysgol yn casglu ystod eang o ddata asesu disgyblion ac mae ymdriniaeth ysgol gyfan i dracio cynnydd disgyblion wedi ei sefydlu. Caiff strategaethau defnyddio asesiadau ar gyfer hyrwyddo dysgu pellach eu hintegreiddio i mewn i'r mwyafrif o wersi ac maent yn datblygu fel rhan o ethos yr ysgol. Mae gan lawer o ddisgyblion eu targedau personol eu hunain i weithio tuag atynt. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd iddynt i asesu ei gwaith eu hunain a gwaith eraill yn annibynnol a chynnig sylwadau cadarnhaol yn anghyson. Medda'r athrawon ymwybyddiaeth o anghenion eu disgyblion a beth yw'r camau nesaf yn eu datblygiad, ond ni adlewyrchir hyn bob amser mewn gweithgareddau dosbarth a addasir i ddiwallu anghenion unigol disgyblion. Mae ansawdd y marcio yn rhy amrywiol ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau i rieni a gofalwyr yn llawn gwybodaeth ac yn annog rhieni a disgyblion i gynnig sylwadau ar gynnydd

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'n effeithiol iechyd a lles disgyblion. Defnyddir yn dda nifer o gyfleoedd da i sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd o fyw iach ac mae ganddynt fynediad i ystod o adnoddau sy'n annog ymarfer corff. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae aelodau o staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae gweithdrefnau da i fonitro a chefnogi eu datblygiad cymdeithasol a lles personol. Mae'r ysgol yn ymofyn barn disgyblion trwy gyfrwng y cyngor ysgol, bocsys syniadau a holiaduron. Mae'r ysgol yn cymryd barn y disgyblion o ddifrif ac yn gweithredu arnynt ble bynnag bo hynny yn bosibl.

Mae profiadau dysgu, gan gynnwys gwasanaethau, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Mae aelodau o staff yn darparu nifer o gyfleoedd i ddisgyblion i weithio a dysgu gyda'i gilydd, ac mae'r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol disgyblion yn dda. Ceir darpariaeth gyfoethog ar gyfer datblygiad diwylliannol disgyblion.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan yr awdurdod lleol, i gefnogi disgyblion gydag anghenion arbennig.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae gweithdrefnau a systemau da ar gyfer adnabod, cefnogi a monitro disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynorthwywyr dysgu yn darparu ymyriad effeithiol mewn dosbarthiadau, gyda thynnu allan ar adegau ar gyfer cefnogaeth ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol yn briodol ac fe'u gwerthusir a'u cyfddyddir yn rheolaidd, mewn ymgynghoriad â rhieni. Mae'r ysgol yn dechrau adnabod y disgyblion mwy galluog a thalentog, ond mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yng nghyfnod cynnar o ddatblygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar gydag ethos cynhwysol. Derbynia'r disgyblion fynediad cyfartal i holl ardaloedd darpariaeth yr ysgol. Mae aelodau o staff yn annog disgyblion i barchu ei gilydd ac i ddatblygu agweddau goddefgar. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn ymuno â'r ysgol, cânt eu croesawu a'u cefnogi'n dda.

Caiff yr ysgol ei chynnal a'i chadw i safon dda ac fe ddefnyddia aelodau o staff y lleoedd mewnol yn dda i wella dysgu disgyblion. Mae arddangosfeydd dosbarth yn dathlu cyflawniad disgyblion yn effeithiol ac yn cefnogi dysgu yn dda yn y mwyafrif o ddosbarthiadau. Medda'r ysgol ystod dda o adnoddau, gan gynnwys offer helaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth sydd wedi ei secondio yn darparu synnwyr clir o gyfeiriad i'r ysgol. Mae hi wedi adnabod blaenoriaethau allweddol wedi eu selio ar farnau allanol a gwerthusiad o systemau a gweithdrefnau cyfredol. Yn y cyfnod byr ers i'r pennaeth fod yn y swydd bu nifer o welliannau arwyddocaol i ethos a diwylliant yr ysgol. Mae hi wedi cychwyn sefydlu ymdriniaeth agored a thryloyw, ac mae yn gynyddol yn ennill cefnogaeth pob un o'r rhanddeiliaid. Mae'n rhy gynnar eto i farnu effaith y mentrau yma ar wella safonau disgyblion ac ansawdd yr addysg a ddarparir.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn cydweithio'n dda, yn rhannu synnwyr cryf o fwriad cyffredin ac yn ymrwymedig i wella'r ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cofleidio'r cyfleoedd newydd ar gyfer arwain ac maent yn dod yn fwy atebol trwy ddefnydd mwy pwrpasol o ddata. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynglŷn ag arweinyddiaeth a rheolaeth hir dymor yr ysgol yn parhau.

Mae gan yr ysgol strwythur rheolaeth linell glir ynghyd a threfniadau rheoli perfformiad priodol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer datblygiad athrawon yn ddigon miniog nac yn cael ei gweithredu yn ddigon grymus er mwyn achosi gwelliannau yn yr arfer.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella ei defnydd o wybodaeth perfformiad ac wedi cyflwyno gosod targedau mwy penodol ar gyfer disgyblion unigol.

Roddir sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus, gan sicrhau adnoddau priodol gaiff eu rheoli'n effeithiol. Mae asesu ar gyfer dysgu yn dechrau ymsefydlu o fewn gwersi ac yn cyfrannu'n briodol tuag at well safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o waith yr ysgol ac maent yn dod yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Yn aml maent yn monitro ardaloedd cwricwlaidd ac yn chwarae rôl briodol wrth reoli perfformiad y pennaeth. Er bod llywodraethwyr erbyn hyn yn defnyddio data yn fwy effeithiol i adnabod cryfderau ac ardaloedd ar gyfer

gwella ym mywyd a gwaith yr ysgol, nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu'n ddigon da.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth sydd wedi ei secondio, y dirprwy bennaeth ac arweinyddion hŷn wedi gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd i achosi gwelliannau mewn nifer o ardaloedd dros y ddau dymor diwethaf. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i werthuso pa mor dda mae'r ysgol yn perfformio, gan gynnwys arsylwadau dosbarth , craffu ar gynllunio athrawon a gwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r broses hunan werthuso wedi cael digon o amser i gael effaith llawn ar safonau a darpariaeth.

Mae'r adroddiad hunan werthuso, sydd yn fanwl, yn rhy hir ac nid yw pob amser yn canolbwyntio digon ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned dysgu fyfyrgar ac mae nifer o aelodau staff yn rhannu gwybodaeth, arbenigedd a syniadau. Cânt nifer o gyfleoedd i rannu arfer da a myfyrio ar eu harfer eu hunain trwy fynychu cyrsiau hyfforddi amrywiol.

Er bu gwelliannau ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr arolygiad diwethaf, ni fu cynnydd yn ddigon da parthed darpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy galluog a thalentog.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau gyda rhieni, y gymuned leol, a nifer o ysgolion yn y clwstwr mae'n rhan ohono, y teulu o ysgolion, yr ysgol uwchradd sy'n derbyn y disgyblion a'r awdurdod lleol. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'n fawr y gofal a'r gefnogaeth gaiff eu plant. Mae'r trefniadau pontio rhwng y grŵp chwarae lleol a'r ysgol yn dda. Mae trefniadau pontio effeithiol yn galluogi disgyblion hŷn i baratoi yn briodol ar gyfer cam nesaf eu haddysg. Mae'r bartneriaeth hon yn annog cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol llwyddiannus. Mae'r clwstwr o ysgolion yn datblygu ac yn rhoi ar waith weithdrefnau priodol ar gyfer cymedroli a safoni gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn talu sylw priodol i reoli adnoddau staffio a chyllid. Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys a derbynia'r holl athrawon amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r pennaeth sydd wedi ei secondio a phwyllgor cyllid y corff llywodraethu yn adolygu gwariant yr ysgol yn rheolaidd. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol â chydberthynas dda â'r blaenoriaethau a osodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol ac anghenion dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn rhai dosbarthiadau, nid yw athrawon yn sicrhau bod yr adnoddau da sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn ddigon da i wella dysgu.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan y disgyblion ac ansawdd yr addysgu, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Pan ddônt i'r ysgol, mae medrau cyfathrebu a lles disgyblion yn gyffredinol o leiaf yn ganolig ac yn aml yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae data dros y tair blynedd diwethaf yn dangos bod disgyblion yn saith mlwydd oed yn cyflawni yn llawer gwell ar gyfartaledd na disgyblion mewn ysgolion eraill yng Nghymru yn y pynciau craidd o Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Maent hefyd yn gwneud yn well ar gyfartaledd na disgyblion yn y teulu o ysgolion (ysgolion gyda nodweddion cyffelyb). O'u cymharu ag ysgolion o fewn yr un band prydau ysgol rhad, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion dros y tair blynedd diwethaf am y tri phwnc craidd. Mae data diwedd cyfnod allweddol yn dangos bod cyfartaledd y disgyblion yn cyflawni'r lefel tri uwch wedi bod yn anghyson o'u cymharu gyda'r teulu o ysgolion dros y tair blynedd diwethaf. Mae bechgyn a merched yn gyffredinol wedi perfformio'r un mor dda ar y lefel dau disgwyliedig dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion yn un ar ddeg mlwydd oed sy'n cyflawni'r lefel pedwar disgwyliedig neu uwch yn y pynciau craidd o Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyffredinol yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol dros y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, nid yw perfformiad disgyblion wedi cymharu'n gyson dda gyda chyrhaeddiad yn y teulu o ysgolion. O'u cymharu ag ysgolion o fewn yr un band prydau ysgol rhad, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn y trydydd chwartel yn 2011 ac yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf yn 2009 a 2010. Ar gyfartaledd, dros y pedair blynedd diwethaf mae disgyblion wedi perfformio'n well nac ysgolion yn genedlaethol a'r teulu o ysgolion mewn Saesneg a mathemateg ar y lefel 5 uwch. Perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd, sef canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel pedwar disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn 2011.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o leiaf yn gwneud y cynnydd disgwyliedig a gwna rhai ohonynt hyd yn oed yn well na hynny. Mae'r disgyblion hynny sy'n derbyn cymorth

ychwanegol ar gyfer llythrennedd a rhai sydd yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim hefyd yn cyflawni’n briodol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd saith deg dau o rieni neu ofalwyr yr holiadur. Mynegodd llawer lefel uchel o fodlonrwydd gyda'r ysgol ac mae hyn ychydig yn is na chymariaethau cenedlaethol. Dwedodd bron pob rhiant bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn teimlo bod staff yn trin eu plant yn deg a gyda pharch ac yn credu bod disgyblion yn derbyn cymorth i ymsefydlu pan ddônt i'r ysgol ac yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yno. Mae'r rhan fwyaf yn meddwl bod ymddygiad yn dda. Mae bron pob un yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plant i fwyta'n iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer o'r rhieni ymatebodd yn meddwl bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn deall beth i'w wneud os dymunent wneud cwyn, ac mae'r ymatebion hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae llawer o'r rhieni ddychwelodd yr holiadur yn meddwl bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn teimlo eu bod yn gwybod digon am ba mor dda mae eu plant yn ei wneud ac nid yw rhai yn teimlo bod gwaith cartref yn adeiladu yn dda ar yr hyn mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Mae'r rhain yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Nid yw rhai rheini yn meddwl bod yr addysgu yn dda ac nid yw nifer fach iawn yn cytuno bod athrawon yn disgwyl i'r plant wneud eu gorau. Mae bron pob un yn credu bod athrawon yn cynorthwyo eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb fel eu bod wedi eu paratoi yn dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Nid yw rhai rheini yn meddwl bod eu plant yn derbyn digon o gefnogaeth ychwanegol ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd naw deg pump o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur ac roedd yr ymatebion i'r cwestiynau yn gadarnhaol. Mae bron pob un yn cytuno bod yr ysgol yn eu cynorthwyo i fod yn iach ac yn darparu digon o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff. Mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda ac mae pob un yn meddwl bod athrawon a staff cefnogi yn eu cynorthwyo i ddysgu ac i wneud cynnydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu yn pryderu neu yn canfod eu gwaith yn galed. Mae rhai disgyblion yn teimlo nad yw achosion o fwlio yn cael eu delio gydag yn ddigon effeithiol. Mae llawer yn meddwl bod digon o adnoddau ar gael i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol ac mae llawer yn credu bod gwaith cartref yn eu cynorthwyo i wella ar ei gwaith yn yr ysgol. Mae tri deg y cant o ddisgyblion yn pryderu nad yw ymddygiad yn y gwersi ddim pob amser yn ddigon da a bod hyn weithiau yn eu rhwystro rhag gwneud eu gwaith cystal ag y dylent. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, dim ond ychydig bach o ddisgyblion sy'n pryderu am ymddygiad yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Eleri A. Hurley | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Spencer Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Ceri Hoffrock | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Dewi Sant a Reolir dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru

Chwefror 2012

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.